26 Ionawr 2023

Annwyl Bwyllgor

Diolch am y cyfle i roi tystiolaeth ichi ar 10 Ionawr 2023. Rwy'n ysgrifennu gyda'r manylion pellach ichi ofyn amdanynt.

Mae cefnogi hyfforddiant a datblygu talent yn flaenoriaeth i S4C o fewn ein strategaeth 2022 – 27, fel mae wedi bod dros y blynyddoedd. Rydym wedi gweithredu a chefnogi nifer o wahanol gynlluniau i sicrhau hyn. Gydag S4C yn comisiynu'r nifer fwyaf o oriau o gynnwys teledu o Gymru bob blwyddyn, rydym ni'n falch iawn bod talentau amlwg sy'n cael eu hadnabod yma yng Nghymru, gweddill y DU ac yn rhyngwladol wedi cychwyn eu gyrfaoedd a meithrin eu sgiliau ar gynyrchiadau S4C. Dros ail hanner 2022, cafodd mwy na 90 o hyfforddeion a phrentisiaid gyfleoedd hyfforddiant ar gynnwys S4C.

Ers 2019, mae S4C wedi gweithio'n agos gyda TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru - sef y corff sy'n cynrychioli'r cwmnïau cynhyrchu yng Nghymru) i sicrhau cynllun hyfforddiant ar gyfer y sector. Mae hon yn bartneriaeth greiddiol sydd yn cynnig hyfforddiant i ddatblygu'r gweithlu mewn meysydd blaenoriaeth sy'n cael eu cytuno ar y cyd rhwng y sector ac S4C yn flynyddol a'u teilwra yn ôl y gofyn. Mae dros 80 cwrs wedi eu cynnal bellach i gefnogi'r sector a'r cwmnïau creu cynnwys i S4C. Mae'r holiadur sgiliau sy'n bwydo i'r blaenoriaethau hyn ar gael yma.

Ers sefydlu Cymru Greadigol, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r corff ac yn croesawu camau sydd wedi ei cymryd ganddynt i ddod â'r sector, darparwyr a chwmnïau at ei gilydd i drafod a bwydo i flaenoriaethau datblygu sgiliau yn y maes. Rhaid gweithio mewn partneriaeth fel hyn os ydym am gefnogi hyfforddiant a sgiliau ar gyfer y sector yng Nghymru. Rydym ni'n cyd-ariannu nifer o gynlluniau hyfforddiant gyda Cymru Greadigol gan gynnwys Cynllun Carlam Ffeithiol Cymru (sydd hefyd yn cael ei ariannu gan BBC Cymru Wales a Channel 4), cynllun peilot RAD Cymru Wales sydd ar fin gorffen a phrosiectau i gefnogi mynediad fel Culture Connect Cymru (gyda BBC Cymru, ITV Cymru, Cymru Greadigol.)

Yn ogystal â gweithio gyda TAC a Cymru Greadigol, mae S4C hefyd yn gweithio gyda sefydliadau a chyrff ar draws Cymru gyda'r nod o gefnogi mynediad, rhoi cyfleoedd i weithio'n y Gymraeg ac i sicrhau bod y sector sgrin yn adlewyrchu Cymru heddiw. Rydym ni'n falch o fod yn gweithio gyda'r consortiwm Media Cymru ac yn rhan o'r gwaith sgiliau a hyfforddiant sy'n cael eu datblygu ganddynt. Ymhlith y sefydliadau a'r cynlluniau eraill mae S4C hefyd yn gweithio gyda nhw mae:

- It's My Shout – cynllun hyfforddi sydd yn creu ffilmiau byrion ar gyfer S4C sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd yn y diwydiannau creadigol, i rannu a datblygu sgiliau, hyder ac i roi cyfle i dalentau newydd. Enillodd un o ffilmiau diwethaf It's My Shout ar gyfer S4C enwebiad yn yr Ŵyl

Cyfryngau Celtaidd yn 2022.

- Screen Alliance Wales – cynllun sy'n cynnig hyfforddiant a phrofiad i bobl o bob oed ac yn sbarduno diddordeb yn y sector mewn plant o naw oed i fyny. Mae hyn yn cefnogi gweledigaeth S4C i ddod â phobl ifanc o bob cefndir i weithio'n y sector.

- Cynllun Carlam Ffeithiol – cynllun sy'n datblygu cynhyrchwyr sy'n ymateb i'r angen i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr creadigol ffeithiol yng Nghymru. (BBC Cymru Wales, Channel 4 a Cymru Greadigol.)

- Culture Connect Cymru – cynllun i roi cyfleoedd i dalent o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector ffilm a theledu yng Nghymru. (BBC Cymru Wales, Channel 4, Cymru Greadigol, ITV Cymru.)

- Bwrsariaethau ac ysgoloriaethau – rydym yn cefnogi nifer o fwrsariaethau i fagu talent ddarlledu'r dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys Bwrsariaeth S4C Chwaraeon i gefnogi myfyriwr o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig i astudio ar gwrs gradd meistr Darlledu Chwaraeon ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'r fwrsariaeth yn cael ei chyd-ariannu gan Rondo a Media Atom ac mewn partneriaeth gyda Say Something in Welsh a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n rhoi cefnogaeth i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg.

  Rydym ni ar fin cyhoeddi pwy sydd wedi derbyn dwy wobr gyda Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru – ysgoloriaeth ar gyfer myfyriwr ar y cwrs gradd baglor Actio, ac bwrsariaeth ar gyfer myfyriwr iau yn eu Stiwdio Actorion Ifanc. Eto, mae sicrhau cynrychiolaeth yn rhan o'r gefnogaeth yma sydd yn benodol ar gyfer myfyrwyr sy'n Ddu, Asiaidd neu lleiafrif ethnig, yn anabl, neu o gefndir economaidd-gymdeithasol di-freintiedig. Ac mae Ysgoloriaeth Newyddion S4C yn meithrin a datblygu lleisiau newydd sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa mewn newyddiaduraeth yn yr iaith Gymraeg ac yn cynnig tri mis o waith yn adran newyddion digidol S4C.

- Hansh Dim Sbin – ers 2018, rydym yn gweithio mewn partneriaeth gydag ITV Cymru i hyfforddi dau newyddiadurwr y flwyddyn sy'n creu cynnwys materion cyhoeddus a newyddion i bobl ifanc ar lwyfannau fel TikTok ac Instagram.

- Sgil Cymru – yn cynnig prentisiaethau a chyrsiau pwrpasol ar gyfer y sector ac yn gweithio i sicrhau bod prentisiaid yn cael cyfleoedd ar raglenni S4C fel Dal y Mellt sydd wedi gwerthu i Netflix yn ddiweddar. Mae cynyddu prentisiaethau a rhoi cyfleoedd i ddod i'r sector yn flaenoriaeth i S4C.

- National Film and TV School Cymru – fel a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2022, rydym ni'n datblygu cwrs penodol ar y cyd i ddatblygu talent sgriptio a chreu ffilmiau Cymraeg i gyd-fynd gyda'r cynllun ffilmiau sy'n cael weithredu fel rhan o'r MoU gyda Cymru Greadigol gyda chymorth Ffilm Cymru.

- Pair – Bu S4C yn bartner yn y cynllun diweddar yma gan Theatr Genedlaethol Cymru roddodd y cyfle i ddeuddeg  o artistiaid sy’n weithwyr llawrydd celfyddydol i derbyn hyfforddiant a chymryd rhan mewn gweithdai er mwyn dysgu sgiliau ymchwil, dulliau dyfeisio, a chreu.

Rydym ni yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i gynnig sesiynau i ddisgyblion ysgol ledled Cymru ar y cyfleoedd sydd o fewn y sector, gan gynnwys y gallu i weithio yn Gymraeg. Ac rydym hefyd yn gweithio gyda Screen Skills, yn cefnogi hyfforddiant Cult Cymru ac yn trefnu sesiynau hyfforddiant penodol ar gyfer y sector ein hunain hefyd,

Fel inni sôn yn y dystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor, mae bylchau sgiliau ar draws bron pob maes arbenigedd yn y sector yng Nghymru. Achoswyd hyn yn rhannol oherwydd y cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf mewn cynyrchiadau sy’n cael eu ffilmio yma oherwydd llwyddiant ac enw da y sector. Mae angen mwy o fuddsoddiad mewn sgiliau a datblygu talent i sicrhau sector cynhyrchu cynaliadwy ac arloesol a all gystadlu'n rhyngwladol tra hefyd yn bodloni'r galw domestig. Mae meithrin talent hirdymor – blaenoriaeth i S4C - yn ddelfrydol yn gofyn am gynllunio cyllid mwy hirdymor nag sydd ar gael ar hyn o bryd. Dylai cynlluniau i lenwi bylchau talent a sgiliau mewn meysydd ble mae galw mawr - fel creu cynnwys digidol ac adrodd straeon - ddechrau yn ifanc, nid trwy hyfforddiant ôl-16 yn unig.

Mae cyfleoedd enfawr i ddatblygu talent mewn meysydd, fel gwyddor a datblygu data, sy'n gynyddol bwysig i S4C a chyfryngau Cymraeg. Mae'r rhain yn feysydd sgiliau cymharol newydd i S4C, ac maent hefyd yn rhai lle mae prinder sgiliau ar draws sawl diwydiant a sector - sy'n ei gwneud hi'n anodd recriwtio. Fel inni sôn yn ein tystiolaeth ysgrifenedig, rydym yn teimlo bod potensial i weithio ar draws Cymru a thu hwnt ar hyn. Mae cyfleoedd amlwg hefyd o ran gwireddu amcanion Cymraeg 2050 o weithlu dwyieithog a dylid gweithredu ar y rhain. Mae S4C eisoes yn cynnig cyfleoedd i fagu hyder a dysgu Cymraeg fel rhan o rai o’n prosiectau hyfforddiant a byddem yn cefnogi mwy o hyn.

Mae sbarduno diddordeb yn y sector, cefnogi mynediad a datblygu sgiliau’r rhai sydd eisoes yn gweithio wedi bod yn rhan o’n strategaeth ni dros y cyfnod diwethaf, ond hyd yma does dim un system o fesur hyfforddeion a dilyn eu gyrfaoedd ar draws Cymru wedi bod. Byddem yn croesawu hyn.

Bydd cefnogi mynediad a pharhau i gynnig cyfleoedd i sicrhau ein bod yn adlewyrchu Cymru yn greiddiol i ni,  a byddwn ni’n gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod strategaeth ar gyfer y sector yn cael ei harwain gan anghenion y sector.

Yn gywir iawn



**Siân Doyle**
**Prif Weithredwr**